

Mynwent Sant Gwyddelan

Mae Ardal Gweinidogaeth Bro Gwydyr, y mae Sant Gwyddelan yn rhan ohono, yn awyddus i fynd ati i gynnal a chadw'r fynwent mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Bu iddyn nhw holi am Gyngor gan yr elusen "Caring for God's Acre" (CfGA). Bu i'w botanegwyr gwblhau arolwg o'r planhigion yn y fynwent a chyflwyno Cynllun Rheoli defnyddiol. Bu iddyn nhw adnabod 37 o flodau gwyllt, 10 o weiriau, 6 rhedyn ac ychydig o goed a llwyni. Bu iddyn nhw awgrymu mae'n bosib bod modd cynyddu'r nifer o flodau gwyllt ond dim ond rhywogaethau sy'n tyfu yn y cyffiniau fel arfer. Buasai modd teneuo'r lleiniau gwair er mwyn gofalu fod mwy o le i flodau dyfu. I wneud hyn, fe gaiff y Gribell Felen flynyddol, sy'n lled-barasitig ar weiriau, ei gwasgaru. Mae yna hefyd fwsoglau a chennau ac mae Paul Jenkins wedi llwyddo i adnabod sawl un ohonyn nhw.

Y coed mwyaf amlwg ydy'r Yw wrth gwrs (9) a'r Ffynidwydd (7). Mae dau o'r coed Yw wedi'u dosbarthu fel 'Coed Hynafol'. Mae un yn wryw a'r llall yn fenyw ac mae'n debyg eu bod nhw'n oddeutu 1500 mlwydd oed ac yn nodweddiol arbennig yn y fynwent. Gyda help Swyddog Coedwigaeth SNPA a chydweithiwr arbenigol, cafodd y coed eu harolygu. Mae pob un yn iach ar hyn o bryd. Cawsom ein cynghori i gael gwared ar Eiddew sy'n tyfu ar hyd y coed Yw. Fe gaiff y Ffynidwydd yn benodol eu harolygu unwaith y flwyddyn neu unwaith pob dwy flynedd i weld oes angen tocio unrhyw ganghennau neu ei dorri'n gyfan gwbl oherwydd rhesymau diogelwch. Ymysg y coed a llwyni eraill mae'r Fasarnen Dail Piws, Celyn, Eiddew ac Ysgaw. Un o nodau'r rheolwyr ydy ceisio gofalu bod arysgrifau'r cerrig beddi yn ddarllenadwy lle'n bosib heb unrhyw lwyni a dail cwmp yn eu gorchuddio.



Caiff y fynwent ei strimio yn y gwanwyn ac eto wedi i'r blodau hau ym mis Gorffennaf/Awst. Caiff yr holl doriadau eu clirio o'r safle fel sydd wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer. Caiff llwybr drwy'r fynwent ei chadw'n fyr a thaclus bob amser er mwyn i bobl ei defnyddio. Llauer o bethau i'w hystyried a'u cyflawni!